**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Addysg a Sgiliau

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mercher, 27 Gorffennaf 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd M Durke (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| F M Gordon | B Hopkins | Y V Jardine |
| L R Jones | S Joy | S Pritchard |
| T M White | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Stephen Holland | Uwch-Gyfreithiwr |
| Sarah Hughes | Rheolwr Gwelliant a Monitro, y Gyfarwyddiaeth Addysg |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Melissa Perry | Cyfreithiwr Dan Hyfforddiant |

**Hefyd yn bresennol**

Y Cynghorydd R V Smith Aelod y Cabinet Dros Addysg a Dysgu

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice

---

**10 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

**11 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Addysg a Sgiliau a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2022 fel cofnod cywir.

**12 Diweddariad gan yr Adran Addysg.**

Darparodd Sarah Hughes, Rheolwr Gwelliant a Monitro'r Gyfarwyddiaeth Addysg, gyflwyniad manwl llawn gwybodaeth ar y cyd-destun ar gyfer Gwasanaethau Addysg Llywodraeth Leol Abertawe.

Roedd y manylion yn cynnwys ysgolion Abertawe; Dysgwyr yn Abertawe; Adeiladau ysgol; a'r gyllideb addysg.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i'r Swyddog ac Aelod y Cabinet dros Addysg a Dysgu, ac ymatebwyd iddynt yn briodol. Cynhaliwyd trafodaethau ar y canlynol: -

- Sut roedd ysgolion Abertawe'n cymharu ag ysgolion eraill yng Nghymru.
- Adeiladu ysgol - ysgolion gradd cyflwr A a B : 56%.
- Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a oedd yn cynnwys yr uchelgais o dyfu darpariaeth cyfrwng Cymraeg.
- Yr amcan cyffredinol o fodloni anghenion yr holl ddysgwyr yn Abertawe, lle bo'n bosib.
- Cyflwr ysgolion hŷn yn Abertawe.
- Cynnal a chadw cyfalaf a rhaglen gwella ysgolion.
- Darparu manylion ynghylch pa mor ystyriol o'r amgylchedd mae ysgolion Abertawe a chynlluniau'r dyfodol ynghylch y mater hwn.
- Adeiladau ysgolion - £216m o gynlluniau cyfalaf ysgol ers arolygiad diwethaf Estyn yn 2013, yn enwedig ysgolion hŷn.
- Canolbwyntio ar addysg yn yr awyr agored, gan gynnwys y cymorth y gall aelodau ward ei ddarparu i ysgolion, e.e. trosglwyddo ardal o barc lleol yng Nglandŵr i ddarparu man gwyrdd i'r ysgol.
- Darparu niferoedd y staff arlwyo, glanhau, gofal, hamdden a hebryngwyr croesfannau i'r Pwyllgor.
- Mabwysiadu ymagwedd leol iawn wrth ymdrin â phroblemau a thargedu ysgolion yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- Y canlyniad cadarnhaol iawn o ran nad yw unrhyw ysgolion yn cael eu monitro gan Estyn ar hyn o bryd.
- Y cyfleoedd a ddarparwyd gan y Fargen Ddinesig.
- Mabwysiadu ymagwedd gyfannol at fynd i'r afael â thlodi, gan gynnwys darparu cymorth ar gyfer y rheini sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig.
- Y cymorth a ddarparwyd i ddisgyblion yn dilyn effaith COVID-19.
- Yr effaith gadarnhaol y gall chwaraeon ei chael ar blant/ysgolion.

Gofynnodd y Cadeirydd am ymatebion gan swyddogion ynghylch cyflwr ysgolion hŷn yn Abertawe; darparu manylion ynghylch pa mor ystyriol o'r amgylchedd mae ysgolion Abertawe a chynlluniau'r dyfodol ynghylch y mater hwn; a darparu niferoedd y staff arlwyo, glanhau, gofal, hamdden a hebryngwyr croesfannau.

## 13 Rhaglen Waith 2022-2023.

Cyflwynodd y Rheolwr Gwella a Monitro adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi amlinelliad drafft i'r Pwyllgor o'r rhaglen waith ar gyfer 2022-2023 ar hyn yr oedd yn ceisio ei gyflawni o ran amcanion polisi.

Amlinellwyd, yn dilyn trafodaeth rhwng y Cyfarwyddwr ac Aelodau’r Cabinet, fod y blaenoriaethau a ddarparwyd yn yr adroddiad wedi’u nodi fel eitemau drafft ar gyfer rhaglen waith 2022-23, yn amodol ar unrhyw ddiwygiadau a wnaed gan y Pwyllgor. Roedd y bwrdd hefyd wedi darparu'r allbynnau a chanlyniadau a ragwelwyd o bob eitem ar y cynllun gwaith, yr ymrwymiad polisi y mae pob cynllun gwaith yn helpu i’w ddarparu a'r flaenoriaeth gorfforaethol sy'n cyd-fynd â phob eitem ar y cynllun gwaith.

Trafododd y pwyllgor y testunau posib canlynol: -

- Gwella presenoldeb ysgol a chryfhau arweinwyr ysgol a chymunedau.
- Cefnogi rhieni/gwarcheidwaid o ran gwella presenoldeb ysgol.
- Effaith negyddol gwaharddiadau ysgol.
- Darparu'r diweddaraf am y cynnydd o ran y 10 argymhelliad y cytunwyd arnynt yn yr adroddiad Cefnogi'r Heriau i Ddysgwyr wrth Adfer o'r Pandemig i'r Cabinet ar 21 Gorffennaf 2022.
- Cryfhau arweinwyr ysgol, sicrhau bod polisïau presennol yn addas at y diben a sicrhau bod digon o adnoddau i adeiladu'r ethos ar draws cymunedau ysgol.
- Datblygu sgiliau rheoli ar draws ysgolion a sicrhau bod gan ysgolion gynlluniau datblygu ar waith.
- Sut mae Abertawe'n ymdrin â diwygio anghenion dysgu ychwanegol a'r côd newydd.
- Cefnogi arweinyddiaeth rhenc ganol o fewn ysgolion.
- Llywodraethu effeithiol o fewn ysgolion.

Gofynnodd y Cadeirydd am ragor o fanylion ynghylch y meysydd a nodwyd yn y rhaglen waith ddrafft yn ystod y cyfarfod nesaf a drefnwyd. Gofynnodd hefyd i'r diweddaraf am y cynnydd gael ei ddarparu yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr 2022 mewn perthynas â'r 10 argymhelliad y cytunwyd arnynt o'r adroddiad Cefnogi'r Heriau i Ddysgwyr wrth Adfer o'r Pandemig i'r Cabinet ar 21 Gorffennaf 2022.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.48 pm

**Cadeirydd**